Cyngor Tref Frenhinol Caernarfon

CYNLLUN PENSIWN LLYWODRAETH LEOL

Datganiad Polisi - Arfer Pwerau Disgresiwn

Mae gofyn i bob cyflogwr yng Nghronfa Bensiynau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS) baratoi datganiad ysgrifenedig o'u polisi mewn perthynas â'r cam o arfer eu swyddogaethau dan y Rheoliadau LGPS (Buddion, Aelodaeth a Chyfraniadau) 2014 canlynol:

- Ariannu pensiwn ychwanegol yn wirfoddol trwy gyfrwng Cyfraniadau Pensiwn Ychwanegol lle y Rhennir y Gost (naill ai trwy gyfrwng cyfraniad parhaus rheolaidd neu gyfandaliad unigol);
- Dyfarnu pensiwn ychwanegol (trwy gyfrwng APC), i'w dalu gan y cyflogwr yn llwyr;
- Manteisio ar y rheol 85 mlynedd ar gyfer aelodau sy'n dewis manteisio ar fuddion ar neu ar ôl iddynt gael eu pen-blwydd yn 55 oed a chyn iddynt gael eu pen-blwydd yn 60 oed;
- Ymddeoliad hyblyg; ac
- Ildio gostyngiadau actwaraidd.

Fel cyflogwr, rhaid i ni:

- barhau i adolygu eu datganiad
- gwneud diwygiadau priodol ar ôl newid ein polisi

Rhaid cyhoeddi unrhyw ddatganiad diwygiedig (sicrhau ei fod ar gael i gyflogeion y maent neu y gallent fod yn aelodau o LGPS) cyn pen mis o ddyddiad y diwygiad, gan anfon copi at Gronfa Bensiwn Gwynedd yn ystod y mis hwnnw. Wrth baratoi neu wrth adolygu a gwneud diwygiadau i'r datganiad, byddwn ni, fel y cyflogwr, yn ystyried y graddau y gallai'r broses o arfer unrhyw rai o'r swyddogaethau yn unol â'r polisi hwn, arwain at golli hyder yn y gwasanaeth cyhoeddus mewn ffordd ddifrifol.

Polisïau

Ariannu pensiwn ychwanegol yn wirfoddol trwy gyfrwng APC lle y Rhennir y Gost

Mae'n bolisi gan Gyngor Tref Frenhinol Caernarfon i beidio ariannu cyfraniadau pensiwn ychwanegol.

Dyfarnu pensiwn ychwanegol

Ni fydd Cyngor Tref Frenhinol Caernarfon yn defnyddio'r pŵer hwn fel arfer.

Manteisio ar y rheol 85 mlynedd

Bydd y Cyngor yn ystyried pob cais fesul achos unigol, a dim ond pan na fydd cost gyffredinol i'r Cyngor y bydd modd cymeradwyo cais i fanteisio ar y rheol 85 mlynedd.

Ymddeoliad Hyblyg

Bydd y Cyngor yn ystyried pob cais fesul achos, a'r unig adeg y bydd cais am fuddion Ymddeoliad Hyblyg yn cael ei gymeradwyo yw pan na fydd hyn yn arwain at gost gyffredinol i'r Cyngor.

Cyngor Tref Frenhinol Caernarfon

Medi 2014